

Plant ac ieuenctid

Darlleniad 1: Salm 127

Darlleniad 2: 1 Timotheus 4: 12-16

O! Dduw ein Tad, tad ein Harglwydd a'n Gwaredwr Iesu Grist, tad pob rhodd werthfawr, diolchwn i ti am blant ac ieuenctid ein heglwysi. Cynorthwya ni i edrych arnynt fel y gwna'r Salmydd gan weld eu bod yn 'etifeddiaeth oddi wrth yr Arglwydd', ac mai 'gwobr yw ffrwyth y groth'. Rhyfeddwn, O! Arglwydd, at yr amrywiaeth o bersonoliaethau sydd yn eu plith, a'r amrywiaeth mawr o ddoniau. Rhyfeddwn dy fod wedi rhoi'r fath gyfoeth i gynifer o'n heglwysi. Dyro gymorth inni, O! Dad, i fod yn wirioneddol ddiolchgar am y cyfoeth hwn.

Derbyn ein diolch am rieni a gadwodd yr addewidion a wnaethant wrth fedyddio a chyflwyno eu plant. Derbyn ein diolch am y dylanwadau da a dyrchafol sydd ymysg teuluoedd cynifer o'n plant a'n hieuenctid, y perthnasau hynny sy'n amlwg wedi eu hymgysegru eu hunain yn dy waith. Derbyn ein diolch am bopeth sy'n gadarnhaol ynglŷn â pherthynas y plant a'r ieuenctid o fewn dy eglwys, eu parodrwydd i gymryd rhan yn y gwasanaeth, eu parodrwydd i helpu eraill, eu parodrwydd i gymryd eu dysgu a'u harwain. Dyro gymorth inni, O! Dad, i werthfawrogi ymdrechion y rhai sydd â chyfrifoldeb arbennig amdanynt.

Cyflwynwn eu rhieni i ti, gan weddio y byddant yn dyfalbarhau i gadw eu haddewidion i'w magu'n ddisgyblion i'th annwyl Fab Iesu Grist. Cyflwynwn i ti weinidogion ac athrawon Ysgol Sul, sy'n dyfalbarhau i'w dysgu a'u caru, Sul ar ôl Sul, flwyddyn ar ôl blwyddyn. Cyflwynwn i ti eraill sy'n cefnogi'r gwaith hwn megis Cyngor Ysgolion Sul Cymru sy'n paratoi'r holl ddefnyddiau ar gyfer y gwersi. Cofiwn ger dy fron am weithwyr canolfannau'r enwadau - Coleg y Bala, gwersylloedd yr Urdd a'r ysgolion haf. Cyflwynwn i ti athrawon ein hysgolion cynradd ac uwchradd, a darlithwyr y colegau. Bydded iddynt hwy fel pob un ohonom ninnau, O! Dad,

sylweddoli cymaint yw ein cyfrifoldeb i roi esiamp! dda ac arweiniad cadarn i'r to sy'n codi.

Gofynnwn am dy faddeuant hefyd. O! maddau inni am feddwl amdanynt fel dyfodol ein heglwysi, yn hytrach na'r presennol. O! maddau inni am ddisgwyl iddynt ymddwyn, ymateb ac addoli fel pobl hŷn. O! maddau inni am anghofio ein bod ninnau wedi bod yn blant ac yn ieuenctid. O! maddau inni am beidio â sylweddoli mai lleiafrif bychan ydynt bellach o rai sy'n mynychu capel neu eglwys, ac felly mor anodd yw hi iddynt fynd yn erbyn y llif. O! maddau inni am ddisgwyl i blant yr Ysgol Sul, na chawsant fawr o gyfle i addoli'n gyson, ddod yn addolwyr ffyddlon, trwy ryw ryfedd wyrth, yn y dosbarthiadau derbyn. O! maddau inni am bob cyfle a gollwyd gennym i droi ein heglwysi a'n capeli yn aelwydydd, a'th eglwys yn deulu croesawgar a chynnes i rai o bob oed.

Cynorthwya ni, O! Arglwydd, i ddilyn yr esiamp! a roddodd dy Fab inni, trwy roi'r plant a'r ieuenctid yn y canol: yng nghanol ein syniadau am eglwys; yng nghanol ein cynlluniau; yng nghanol ein paratoadau i'th addoli; yng nghanol ein cenhadaeth; yng nghanol ein gweledigaeth am dy eglwys heddiw ac yfory.

Pan fyddwn yn ymdeimlo â'n methiant i'w cyrraedd, pan fyddant yn ymddangos fel petaent wedi crwydro ymhell oddi wrthyt ti, a ninnau, cadw hwy, O! Dad, yn ddigon agos at ein calonau fel y byddwn yn parhau i weddio'n daer drostynt.

‘Ni fethodd gweddi daer erioed
Â chyrraedd hyd y ne.’

O! gwrando ein gweddi daer, yn enw Iesu Grist. Amen.

Eric Jones